Llywodraeth Cymru

# Cymraeg i Bawb?

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Cymraeg i Bawb? a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 4 Chwefror 2026.

Mae'r ymateb yn rhoi eglurder ynghylch ble mae argymhellion yn cael eu derbyn, eu derbyn mewn egwyddor, neu eu nodi, ac mae'n disgrifio'r camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill neu sydd wedi'u cynllunio i gefnogi twf a defnydd parhaus y Gymraeg ac yn ailddatgan penderfyniad y Llywodraeth i gyflawni Cymraeg 2050.

# Cynnwys

**1. Ymateb i'r Argymhellion ........ 3**

Argymhelliad 1 ........ 3

Argymhelliad 2 ........ 4

Argymhelliad 3 ........ 4

Argymhelliad 4 ........ 4

Argymhelliad 5 ........ 5

Argymhelliad 6 ........ 5

Argymhelliad 7 ........ 6

**2. Casgliadau ........ 7**

Casgliad 1 ........ 7

Casgliad 3 ........ 7

Casgliad 4 ........ 8

Casgliad 5 ........ 10

Casgliad 6 ........ 10

Casgliad 7 ........ 11

Casgliad 8 ........ 11

Casgliad 9 ........ 12

Casgliad 10 ........ 13

# 1. Ymateb i'r Argymhellion

## Argymhelliad 1

*Datblygu fframwaith gwaddol strategol a chyllid gwaddol pwrpasol: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol, ddatblygu fframwaith clir i roi arweiniad o ran cynllunio gwaddol ar ôl gwyliau. Byddai hyn yn sicrhau bod y momentwm a gynhyrchir gan wyliau Cymraeg cenedlaethol a rhanbarthol allweddol yn trosi'n weithgarwch cynaliadwy yn y blynyddoedd dilynol.*

Ymateb: Derbyn

Mae gwaith i ddatblygu fframwaith gwaddol strategol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eisoes ar y gweill ers ymddangosiad diwethaf yr Ysgrifennydd Cabinet gerbron y Pwyllgor. Bydd y fframwaith yn amlinellu rôl yr Eisteddfod fel catalydd ar gyfer newid cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol ac economaidd, gan hefyd amlinellu rolau hollbwysig partneriaid yn gweithio'n strategol tuag at sicrhau gwaddol i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Bydd y fframwaith yn cydnabod bod gwaddol yr ŵyl yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r wythnos ar y maes, ac yn cynnwys effaith ar addysg, cymunedau, cynhwysiant, diwylliant digidol, grwpiau diwylliannol lleol, gwirfoddoli, yr economi leol, ac wrth gwrs, y Gymraeg. Byddwn yn ystyried dull dwy haen o gydweithio, gyda gorolwg strategol cenedlaethol ochr yn ochr â strwythurau lleol i osod blaenoriaethau, sicrhau cysondeb, a chryfhau integreiddio cynllunio ieithyddol a datblygu cymunedol drwy lens taith yr Eisteddfod. Trwy'r dull hwn, nod y Llywodraeth yw sicrhau bod y momentwm a grëir gan wyliau cenedlaethol a rhanbarthol yn cael ei drosi'n weithgarwch cynaliadwy sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion ehangach Cymraeg 2050. Ar y cyd â'r Eisteddfod, y bwriad yw cyhoeddi'r fframwaith yn fuan iawn.

Bydd y fframwaith gwaddol strategol ar gyfer yr Eisteddfod, hefyd yn sbardun i drafodaethau ac yn sail i ffordd genedlaethol o weithio ar gyfer sicrhau gwaddol i wyliau eraill. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phob gŵyl sy'n derbyn nawdd gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymgorffori ystyriaethau gwaddol yn amcanion eu grantiau. Yn hytrach na chyhoeddi cyllid pwrpasol newydd ar gyfer gwaith gwaddol, credwn taw ymgorffori'r dull hwn o fewn cynlluniau grant presennol ddylai fod y flaenoriaeth, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian cyhoeddus sydd eisoes yn rhan o'r tirlun digwyddiadau.

## Argymhelliad 2

*Sefydlu cronfa bwrpasol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwaddol: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa fach, bwrpasol i gefnogi'r mentrau iaith a phartneriaid allweddol gyda gweithgareddau a mentrau i sicrhau gwaddol ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld ag ardal. Dylai'r gronfa ganolbwyntio ar ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, neu ardaloedd ble mae angen ymyriadau dwys. Byddai hyn yn galluogi'r mentrau iaith a chyrff partner i gael mynediad at gyllid penodol wedi'i dargedu er mwyn adeiladu ar lwyddiant gwyliau mawr*

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r gyllideb ar gyfer 2026-27 eisoes wedi'i chytuno. Serch hynny, yn unol ag Argymhelliad 1, byddwn yn parhau i weithio gyda'n hystod o randdeiliaid allweddol wrth i ni roi fframwaith gwaddol ar waith

## Argymhelliad 3

*Sicrhau mynediad rhad ac am ddim neu gost-isel: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n barhaus ddigonolrwydd y cyllid a ddarperir i'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol i alluogi mynediad am ddim neu gost-isel i aelwydydd incwm isel i'r prif wyliau cenedlaethol Cymraeg.*

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cytuno. Mae gwaelodlin ein grantiau craidd i'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd yn cynnwys cyllid at ddibenion ehangu mynediad yr eisteddfodau i aelwydydd incwm isel. Bydd hyn yn hwyluso mynediad i unigolion o'r aelwydydd yna.

## Argymhelliad 4

*Monitro a gwerthuso effaith: Dylai Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth partneriaid, gomisiynu ymchwil a gwerthusiad o'r effaith a gaiff gwyliau a digwyddiadau Cymraeg lleol a chenedlaethol o ran defnydd a hyder pobl i ddefnyddio'r iaith yn ein cymunedau a'n hysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Dylai'r canfyddiadau lywio penderfyniadau polisi a buddsoddi yn y dyfodol.*

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd deall effaith gwyliau a digwyddiadau Cymraeg ar ddefnydd iaith pobl mewn cymunedau ac ysgolion. Mae ein partneriaid cyflawni eisoes yn casglu ac yn adrodd data am effaith eu digwyddiadau drwy systemau rheoli grantiau Cymraeg 2050, ac yn aml mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod profiadau cadarnhaol mewn digwyddiadau

Cymraeg yn gallu sbarduno mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg - yn enwedig ymhlith siaradwyr newydd a'r rheiny sydd heb gyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r iaith.

Er mwyn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i gryfhau ein gallu i fesur effaith digwyddiadau ar y Gymraeg, gan sicrhau bod ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr hefyd yn cael sylw penodol wrth ddatblygu ein dulliau monitro a gwerthuso.

## Argymhelliad 5

*Cryfhau mentrau data agored a chael gwared ar rwystrau i rannu data: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cryfhau mentrau data agored y sector cyhoeddus, a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â GDPR i rannu data yn gyfrifol er mwyn cefnogi datblygiad technoleg Cymraeg*

Ymateb: Derbyn

Yn ein blaenoriaethau technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial (AI), rydyn ni wedi ymrwymo i wella AI a thechnolegau eraill drwy rannu mwy o ddata. Rydyn ni eisoes yn rhannu data Cymraeg gyda phrosiectau fel AINA, sydd wedi'i arwain gan Lywodraeth Catalwnia a'r Barcelona Supercomputing Centre, ac rydyn ni'n annog sefydliadau eraill i wneud hefyd. Gall hyn fod yn uniongyrchol drwy ddanfon cynnig ffurfiol at Microsoft fel rhan o'n partneriaeth neu drwy drwyddedu data addas yn agored. Byddwn ni'n parhau i ystyried arferion da rhannu data yn y dyfodol.

## Argymhelliad 6

*Cyflwyno modelau cyllido amlflwyddyn a chynyddu buddsoddiad craidd: Dylai Llywodraeth Cymru symud o gylchoedd cyllido blynyddol i fodelau amlflwyddyn i gynorthwyo gyda datblygu technoleg Cymraeg. Byddai modelau cyllido tymor hwy yn cefnogi sefydliadau allweddol fel Canolfan Bedwyr i gynllunio prosiectau sy'n rhychwantu sawl blwyddyn ariannol*

Ymateb: Derbyn

Rydym eisoes wedi cadarnhau eleni y byddwn yn symud o gylch ariannu fesul blwyddyn i ariannu derbynwyr grant dros gyfnod hyd at dair blynedd. Bydd hyn yn digwydd o fis Ebrill eleni ymlaen. Mae hyn yn sicrhau fod ein Cynllun grant yn cyd-fynd â pholisi ariannu tymor hirach Llywodraeth cymru ac yn rhoi fwy o sicrwydd i dderbynwyr grant gynllunio eu rhaglenni gwaith.

## Argymhelliad 7

*Cefnogi mentrau cymunedol: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid wedi'i dargedu, yn debyg i'w chynllun Perthyn, i alluogi sefydliadau cymunedol a chlybiau llawr gwlad i ddatblygu ffyrdd arloesol o gyflwyno cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai prif ffocws unrhyw gyllid o'r fath fod ar gefnogi clybiau llawr gwlad mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg.*

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r gyllideb ar gyfer 2026-27 eisoes wedi'i chytuno. Serch hynny, yn unol ag Argymhelliad 1, byddwn yn parhau i weithio gyda'n hystod o randdeiliaid allweddol er mwyn trafod y maes hwn

Mae Cynllun Perthyn eisoes yn cefnogi ac cynorthwyo grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau yn fentrau cymdeithasol hyfyw. Mae'r gronfa eisoes yn cynnig cyfleoedd i feddwl am syniadau arloesol i ddiwallu anghenion economaidd cymdeithasol a ieithyddol yn ein cymunedau. O fewn y flwyddyn ariannol bresennol mae Cynllun Perthyn wedi ei ymestyn i fod yn gynllunCymru gyfan ac eisoes mae diddordeb a cheisiadau wedi eu cyflwyno gan grwpiau cymunedol o ardaloedd dwysedd is. Mae Perthyn yn cynnig cyfleoedd i grwpiau ddatblygu cynlluniau ble mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'u nod ac amcanion ac felly yn creu gofodau newydd i bobl ddefnyddio y Gymraeg.

# 2. Casgliadau

*Gan fod casgliadau 1, 2 a 3 yn cyfeirio at faterion sy'n gorgyffwrdd, rydym wedi darparu un ymateb ar gyfer y 3 chasgliad sy'n ymdrin â'r prif themâu a godir.*

## Casgliad 1

*Er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen dull cyfannol sy'n cyfuno ymyriadau diwylliannol, cymdeithasol a pholisi. Er bod cymhelliant unigolion i ddysgu a defnyddio'r iaith yn rhywbeth personol, mae tystiolaeth yn dangos y gall creu cyfleoedd hygyrch a chynhwysol, drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau lleol, ddylanwadu'n sylweddol ar ymddygiad a hyder pobl wrth ddefnyddio'r iaith. Mae digwyddiadau a gwyliau diwylliannol lle mae pobl yn cael eu trochi yn yr iaith yn hollbwysig, ond mae hefyd angen creu mwy o ofodau dwyieithog, yn enwedig mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg. Bydd cefnogi trefnwyr digwyddiadau a gwyliau i fabwysiadu ethos dwyieithog yn helpu i normaleiddio'r iaith, ac yn sicrhau y caiff ei chlywed a'i gweld lle bynnag y boch yng Nghymru.*

## Casgliad 2

*Mae gwyliau a digwyddiadau Cymraeg yn ffyrdd hollbwysig o hyrwyddo a normaleiddio'r iaith, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Maent yn creu profiadau pwerus a chadarnhaol sy'n codi hyder, gwelededd a pharodrwydd i ddefnyddio'r iaith. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, fodd bynnag, rhaid i'r digwyddiadau hyn gael eu hymgorffori mewn fframwaith strategol ehangach, rhaid darparu adnoddau priodol ar eu cyfer a rhaid iddynt ymgysylltu â'r gymuned gyfan, nid dim ond yr ychydig sy'n cymryd rhan.*

## Casgliad 3

*Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith partneriaeth cryfach rhwng cyrff cenedlaethol (gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a Chyngor Celfyddydau Cymru), awdurdodau lleol, y mentrau iaith, sefydliadau cymunedol, a sefydliadau angor fel cyrff chwaraeon, gael ei ategu gan gyllid pwrpasol i sicrhau gwaddol, ac y dylid sicrhau bod rolau wedi'u diffinio'n glir. Bydd y dull hwn yn osgoi rhoi straen ar adnoddau ar lefel leol, yn golygu y gellir ehangu digwyddiadau llwyddiannus, ac yn sicrhau bod y momentwm a gynhyrchir gan wyliau yn arwain at gynnydd hirhoedlog wrth i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau a'n hysgolion.*

Rydym yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor ac yn cyd-weld â phwysigrwydd cael dull cyfannol sy'n cyfuno ymyriadau diwylliannol, cymunedol a pholisi er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg. Fel y nodwyd eisoes yn ein hymateb, mae tystiolaeth gan ein partneriaid yn dangos bod digwyddiadau Cymraeg hygyrch a chynhwysol yn gallu cael effaith sylweddol ar hyder a defnydd pobl o'r iaith, yn enwedig ymhlith siaradwyr newydd a'r rhai sydd fel arfer heb gyfleoedd rheolaidd i'w defnyddio.

Yn ychwanegol, rydym yn cytuno bod digwyddiadau a gwyliau diwylliannol – lle mae trochi yn yr iaith yn digwydd yn naturiol – yn hollbwysig. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i ehangu'r ddarpariaeth o ofodau dwyieithog mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Drwy barhau i weithio gyda threfnwyr digwyddiadau i hyrwyddo ethos dwyieithog a Chymraeg, gallwn normaleiddio'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru.

## Casgliad 4

*Mae'r gwaith cynnar a wnaed i baratoi'r sylfeini ar gyfer technoleg Cymraeg yn golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y gorau o'r cyfleoedd mewn datblygiadau technolegol, yn enwedig deallusrwydd artiffisial. Mae'n allweddol ein bod yn trosi'r sefyllfa strategol hon i gynyddu'r defnydd o dechnoleg Cymraeg o ddydd i ddydd. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu:*

- fframwaith polisi ystwyth ac ymatebol;

Yn dilyn adroddiad terfynol y Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg, fe gyhoeddon ni alwad am wybodaeth i ofyn i bobl beth oedd ei angen arnyn nhw o ran technoleg Cymraeg at y dyfodol. Ar sail yr ymatebion, rydyn ni bellach yn gweithredu o dan dair blaenoriaeth ar gyfer technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial (AI), sef:

- technoleg fel ffordd o gynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg;
- sicrhau bod pawb yn gallu cael at dechnoleg Cymraeg;
- gwella deallusrwydd artiffisial (AI) Cymraeg a thechnolegau lleferydd (drwy rannu data a ffyrdd eraill).

Bydd ein grantiau technoleg yn ffocysu ar y blaenoriaethau hyn o 2026-27 ymlaen ac rydyn ni'n cyson edrych at y gorwel o ran datblygiadau technolegol er mwyn gallu ail-flaenoriaethu cyllid yn y dyfodol os bydd angen. Un enghraifft o sut rydyn ni wedi rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau o'r fath yw ein gwaith i flaenoriaethu paratoadau ar gyfer AI nôl yn 2018 yn ein Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg. Rydyn ni bellach yn cydweithio yn gyson gyda'r Swyddfa AI er mwyn archwilio pob math o gysylltiadau gyda'n gwaith ni ar draws y Llywodraeth a thu hwnt.

- safonau'r Gymraeg wedi'u mireinio i'w gosod ar gyrff cyhoeddus i adlewyrchu'r cyd-destun technolegol newydd (lle bo angen, drwy ddeddfwriaeth);

Wrth ddatblygu rheoliadau safonau'r Gymraeg mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sut i sicrhau bod rheoliadau yn ffit i bwrpas ac yn cynnwys dulliau cyfoes sydd gan gyrff o ddarparu gwasanaethau i'w defnyddwyr. Er enghraifft, cyflwynwyd safonau newydd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 sy'n galluogi gosod dyletswyddau mewn perthynas â chyfleusterau sgwrsio ar-lein. Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026 sydd bellach wedi cael eu gosod yn y Senedd hefyd yn cynnwys y dyletswyddau hynny yn ogystal â safon newydd ynghylch cynnwys sain a fideo. Bydd y Llywodraeth yn parhau i ystyried datblygiadau technolegol newydd wrth baratoi rheoliadau safonau yn y dyfodol.

- model cyllido amlflwyddyn sy'n cyd-fynd â rhaglenni cyflawni digidol;

Gw. argymhelliad 6.

- llwybrau data agored cryfach;

Byddwn ni'n parhau i arddel modd gwaith sy'n sicrhau bod mynediad at ddata a chydrannau Cymraeg o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim. Rydyn ni eisoes yn cefnogi cyhoeddi data a chydrannau yn agored drwy ein grantiau technoleg. Mae'r gwaith rydyn ni'n ariannu drwy Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor er enghraifft, yn cael ei gyhoeddi ar blatfformau GitHub a Hugging Face. Mae Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru hefyd yn rhannu cofau cyfieithu a therminoleg drwy BydTermCymru. Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau i annog gwneud mwy o ddata Cymraeg ar gael i fwydo datblygiadau technolegol, a byddwn ni'n parhau i ystyried arferion da rhannu data yn y dyfodol.

- buddsoddiad yn y gweithlu datblygwyr Cymraeg;

Mae'n grantiau i Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor ac eraill i ddatblygu technoleg Cymraeg bellach ar gael dros dymor hwy. Mae hyn yn caniatáu inni gynnal trafodaethau strategol ynghylch cynllunio gweithlu technoleg iaith Cymru at y dyfodol.

- ymchwil estynedig a mesur y defnydd a wneir o dechnoleg Cymraeg; a

Ym mis Ionawr 2026, fe wnaethon ni gyhoeddi Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil: Cymraeg 2050. Rydyn ni am gydweithio gyda'r gymuned ymchwil i adeiladu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer Cymraeg 2050 ac mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cwestiynau ymchwil a fydd, yn ein barn ni, yn cynorthwyo i fwrw agenda Cymraeg 2050 yn ei blaen. Mae'n cynnwys adran benodol ar dechnoleg a'r Gymraeg. Rydyn ni hefyd yn gofyn cwestiynau am y defnydd o dechnoleg mewn arolygon ystadegol rydyn ni'n eu cynnal.

- camau gweithredu wedi'u targedu i wella pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Cymraeg, a phlwraliaeth cynnwys Cymraeg.

Mae'r ffocws yn parhau i fod ar gynnwys digidol sy'n ymateb i arferion cynulleidfaoedd sy'n newid. Mae'n hanfodol felly bod cynnwys Cymraeg yn hawdd ei ddarganfod. Rydyn ni'n gweithio gydag Ofcom, Llywodraeth y DU a darlledwyr i gefnogi amlygrwydd digidol cynnwys Cymraeg a'i argaeledd ar draws ystod o lwyfannau.

## Casgliad 5

*Mae apiau a chynnwys Cymraeg yn cael anhawster yn sgil algorithmau sy'n rhoi amlygrwydd i'r apiau mwyaf poblogaidd, sydd bob amser yn Saesneg. Mae chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo apiau a chynnwys Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig i bobl ifanc, yn hanfodol. Er y gallai llawer o hyn fod y tu hwnt i gwmpas yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, gall gefnogi sefydliadau partner i weithio gyda datblygwyr a chrewyr cynnwys i wella pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Cymraeg, a phlwraliaeth cynnwys Cymraeg.*

Mae AI yn cynnig cyfleoedd newydd i'w gwneud hi'n haws i ddod o hyd i gynnwys Cymraeg, ond nid yw hyn ar ei ben ei hun yn ddigon. Dyna pam rydyn ni'n ymgysylltu'n gyson â chwmnïau technoleg i drafod materion o'r fath. Rydyn ni hefyd yn trafod gyda sefydliadau eraill sy'n ymddiddori yn y maes hwn.

## Casgliad 6

*Mae angen i bolisi cyhoeddus ganolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan gefnogi cyrff y sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Mae Deddf 2025 yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n gadarnhaol â sefydliadau a busnesau wrth i'r CEFR gael ei gyflwyno. Dylid creu pecyn cymorth, sy'n cynnwys rhoi mynediad i fusnesau a gweithwyr at adnoddau a hyfforddiant drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ynghyd â chyfleoedd i rannu arferion da.*

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i strategaeth y Gymraeg gynnwys targedau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys defnydd yn y gweithle a defnydd yn gymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys o fewn gweithleoedd yn y sector breifat.  Bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi arweiniad clir i'r sector gweithleoedd ynghylch y camau fydd angen iddynt eu cymryd i wireddu'r targedau hynny.

Mae Comisiynydd y Gymraeg, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eisoes yn cynnig arweiniad a chymorth i'r sector breifat ynghylch sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda chyrff sector breifat ac yn

rhannu arfer da ar sut i wella'r gwasanaethau Cymraeg maent yn cynnig i'w cwsmeriaid. Maent wedi datblygu'r cynllun Cynnig Cymraeg sy'n rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i gyrff sector preifat sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cefnogi busnesau a chyrff cyhoeddus i ddatblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith. Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig hyfforddiant amrywiol, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr i gyflogwyr. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio o gyrsiau blasu ar-lein i gyrsiau preswyl dwys, ac hefyd cyrsiau codi hyder. Mae rhai cyrsiau wedi'u teilwra'n benodol i sectorau penodol sy'n cynnwys twristiaeth a lletygarwch, iechyd a gofal a gofal plant.  Mae'r cynllun hefyd yn darparu hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth i Gyflogwyr, er mwyn sicrhau dealltwriaeth ar gynllunio a chynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu.  Pan fydd y Cod sy'n sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd wedi cael ei gyflwyno, bydd disgwyl i'r ddarpariaeth Cymraeg Gwaith gyd-fynd â'r Cod gan ei wneud yn haws i weithwyr a chyflogwyr adnabod beth yw lefelau sgil gweithwyr yn y Gymraeg.

## Casgliad 7

*Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno gweld llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gefnogi clybiau llawr gwlad i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg a chreu ethos Gymraeg gryfach. Gan weithio gyda chyrff rheoli, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth lle bo angen i rannu arferion da. Dylai'r cyrff rheoli hefyd ganolbwyntio ar:*

Mae'r casgliad yma yn nodi'n glir mai cyfrifoldeb y cyrff rheoli yw rhoi'r argymhellion hyn ar waith. Er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyrff rheoli arwain ar gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg a datblygu ethos Gymraeg gryfach mewn clybiau llawr gwlad, rôl y Llywodraeth yw darparu cefnogaeth lle bo angen, yn enwedig drwy rannu arferion da a gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff perthnasol.

## Casgliad 8

*Mae'n amlwg bod bwriad da i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru, drwy Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso Cymraeg 2050, wedi ceisio darparu rhywfaint o arweiniad yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae angen dull llawer mwy systematig a chydlynol o ymdrin ag anghenion ymchwil i lywio'r gwaith o ddylunio a chyflawni polisïau yng nghyd-destun y Gymraeg. Dylai'r arweinyddiaeth honno ddod gan Lywodraeth Cymru.*

Ym mis Ionawr 2026, fe wnaethon ni gyhoeddi Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil: Cymraeg 2050. Rydyn ni am gydweithio â'r gymuned ymchwil i adeiladu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer Cymraeg 2050, ac mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cwestiynau ymchwil a fydd, yn ein barn ni, yn cynorthwyo i fwrw agenda Cymraeg 2050 yn ei blaen. Gan gwmpasu meysydd megis y blynyddoedd cynnar, addysg a hyfforddiant, iechyd a gofal cymdeithasol, yr economi ac adfywio cymunedol, ei diben yw cefnogi cyfnewid gwybodaeth, ysgogi ymchwil newydd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cymraeg 2050, ac annog mwy o fuddsoddi mewn ymchwil sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diwethaf yn 2019-20. Daeth yr arolwg i ben yn gynt na'r hyn a gynlluniwyd oherwydd pandemig COVID-19. Rydym wrthi'n edrych ar opsiynau er mwyn cynnal arolwg defnydd iaith arall yn y dyfodol. Yn ystod cyfnodau rhwng arolygon defnydd iaith, rydym wedi cynnwys cwestiynau am ddefnydd o'r Gymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, bydd arolwg 2026-27 yn cynnwys cwestiynau am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

I ategu data lefel genedlaethol o'r Arolwg Defnydd Iaith, mae Prosiect BRO yn astudiaeth sosioieithyddol tair blynedd a lansiwyd yn 2023 sy'n archwilio defnydd y Gymraeg a newid ieithyddol ar lefel fanwl, gymunedol, gan ddefnyddio dulliau ymchwil cymysg. Arweinir y prosiect gan ymchwilwyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, a Choleg Iesu, Rhydychen, ac fe'i cefnogir gan gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ei allbwn cyntaf—casgliad sy'n dadansoddi data'r cyfrifiad ar lefel awdurdod lleol ac ardal ystadegol haen is (LSOA)—fel rhan o adroddiad cam cyntaf y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae'r tîm ymchwil wedi cynnal arolygon cymunedol ac arsylwad ethnograffig mewn cymunedau Cymraeg, ac mae canfyddiadau cynnar eisoes yn cael eu rhannu. Nod y prosiect yw cynhyrchu argymhellion polisi ymarferol ac offer i gefnogi'r cymunedau hyn.

## Casgliad 9

*Mae angen penodol i fesur effeithiolrwydd ymyriadau yn y gweithle ac mewn chwaraeon o ran y defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys astudiaethau hydredol i olrhain newid ymddygiad dros amser. Dylai hyn gyd-fynd â chyflwyno'r CEFR a newidiadau ehangach a ddaw yn sgil y Ddeddf*

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i strategaeth y Gymraeg gynnwys targedau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys defnydd yn y gweithle a defnydd yn gymdeithasol. Bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi arweiniad clir i'r sector gweithleoedd ynghylch y camau fydd angen iddynt eu cymryd i wireddu'r targedau hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd [CEFR] trwy gyhoeddi Cod. Bydd y Cod yn hwyluso gallu cyflogwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o lefelau hyfedredd Cymraeg eu cyflogeion ac ymgeiswyr am swyddi fydd yn ei dro yn darparu eglurder ynghylch eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

O fewn y cyfnod o 12 mis wedi i'r Cod gael ei gyhoeddi rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r safonau'r Gymraeg sy'n gysylltiedig â gwella neu asesu sgiliau'r gweithlu o ran y Gymraeg a'r safonau hybu. Gallai hynny arwain at ddiwygio'r safonau a phe gwneid hynny, gallai roi eglurder pellach i sectorau megis gweithleoedd ar sut y gallai'r lefelau cyfeirio cyffredin hyn ymwreiddio yn eu gwaith a chaniatáu mesur capasiti i ddefnyddio'r Gymraeg. Gallai'r adolygiad hefyd arwain at ddiwygio safonau a fyddai'n hwyluso cyflawni targedau a nodir yn strategaeth y Gymraeg.

Bydd rhyddid i unrhyw gorff fanteisio ar y dull safonol fydd i'w gyflwyno yn y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Gallai defnydd cynyddol ohono mewn amrywiol gyd-destunau gydol oes – o ysgolion i weithleoedd – wella ein dealltwriaeth o'r trothwy sy'n ysgogi ymddygiad lle mae unigolyn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, yn y gwaith ac yn gymdeithasol, a hynny yn ei dro yn hwyluso cynllunio ymyraethau er mwyn gwireddu targedau strategaeth Cymraeg 2050.

Fe wnawn barhau i fesur effeithlonrwydd ein ymyraethau yn y maes chwaraeon a gweithleoedd drwy'n partneriaid megis Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gefnogi sefydliadau chwaraeon i ymestyn eu darpariaeth Cymraeg, gan gryfhau trefniadau monitro dros amser. Bydd y gwaith hwn yn cael ei alinio'n raddol â chyflwyno'r CEFR a'r newidiadau ehangach sy'n deillio o'r Ddeddf.

## Casgliad 10

*Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rôl y Cymry ar wasgar yn ei strategaeth iaith yn rheolaidd a sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu'r realiti bod ein cymuned ieithyddol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. Dylai'r gwaith ymgysylltu fod yn gymesur a dylid canolbwyntio ar gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg*

Rydym yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle amlwg ar lefel ryngwladol. Mae cydweithredu ar sail iaith wrth wraidd ein cysylltiadau â gwledydd a rhanbarthau fel Iwerddon, Gwlad y Basg, Catalwnia, Fflandrys, Seland Newydd, Canada a Llydaw. Rydym hefyd yn aelodau o'r Rhwydwaith i Hyrwyddo

Amrywiaeth Ieithyddol, sy'n rhannu arferion gorau mewn polisi iaith ledled Ewrop.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Catalwnia, rydym yn datblygu prosiect AINA drwy grŵp ad-hoc Meysydd Digidol a Chydraddoldeb, fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol UNESCO. Nod y prosiect yw gwella technoleg ddwyieithog er budd cymunedau amlieithog ledled y byd.